


Senedd 2021: Maniffesto i roi terfyn ar ddigartrefedd



Am Cymorth Cymru

Cymorth Cymru yw'r corff trosfwaol ar gyfer darparwyr gwasanaethau digartrefedd, cymorth ym maes tai a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae ein haelodau'n darparu ystod eang o wasanaethau sy'n rhoi cymorth i bobl ymdopi â chyfnodau anodd, ailadeiladu eu hynanhyder, a byw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Maent yn cynnwys pobl sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod felly, pobl ifanc a rhai sy'n gadael gofal, pobl hŷn, pobl sy'n ffoi rhag trais yn erbyn menywod, trais yn y cartref neu drais rhywiol, pobl sy'n byw gydag anabledd dysgu, pobl sy'n dioddef problemau iechyd meddwl, pobl sy'n cael problemau gyda chamddefnyddio sylweddau, a llawer mwy.

Rydym yn gweithredu fel llais y sector, gan ddylanwadu ar ddatblygu a gweithredu polisïau, deddfwriaeth ac ymarfer sy'n effeithio ar ein haelodau ac ar y bobl maent yn estyn cymorth iddynt. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, ein haelodau a'n partneriaid, i greu newid. Credwn y gallwn, gyda'n gilydd, gael mwy o effaith ar fywydau pobl.

Rydym yn awyddus i fod yn rhan o fudiad cymdeithasol sy'n rhoi terfyn ar ddigartrefedd a chreu Cymru lle gall pawb fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, a ffynnu yn eu cymunedau.



www.cymorthcymru.org.uk



policy@cymorthcymru.org.uk



[@CymorthCymru](https://twitter.com/CymorthCymru)

Cyflwyniad

Rydym yn nesáu at etholiadau'r Senedd yng nghanol pandemig byd-eang – profiad sydd wedi chwyddo'r anghydraddoldebau a wynebir gan bobl nad oes ganddynt gartref sefydlog, diogel a fforddiadwy. Pan ddywedwyd wrthym am 'aros gartref', sylweddolwyd ar unwaith y byddai hynny'n profi'n amhosibl i bobl ddigartref, ac yn beryglus i'r rhai oedd yn dioddef trais a chamdriniaeth.

Fodd bynnag, mae'r pandemig hefyd wedi amlygu'r hyn y gellir ei gyflawni gyda gweledigaeth glir, arweiniad egwyddorol, a'r cyllid a'r cymorth angenrheidiol. Mae miloedd o bobl wedi cael help i symud oddi ar y strydoedd ac allan o lety anaddas er mwyn eu cadw'n ddiogel rhag COVID-19. Cafodd degau o filoedd yn rhagor gymorth i gynnal eu cartrefi, er mwyn osgoi digartrefedd a dianc rhag trais a chamdriniaeth. Mae'r gwasanaethau cymorth wedi bod yn holl bwysig, gan addasu eu modelau cyflenwi i gwrdd ag anghenion pobl dan gyfyngiadau'r llywodraeth, a'r rheiny'n newid yn gyson. Nid yw gweithwyr ym meysydd digartrefedd, tai a chymorth erioed wedi bod mor bwysig, ac maent yn ddiaw wedi helpu i arbed llawer iawn o fywydau yn ystod cyfnod y pandemig hwn.

Mae'n amlwg fod gan Llywodraeth nesaf Cymru gyfle gwych i adeiladu ar yr ymdrechion anhygoel hyn, a sicrhau bod gan bawb yng Nghymru gartref sefydlog, diogel a fforddiadwy, yn rhydd o unrhyw gamdriniaeth. Bydd gan y Gweinidogion newydd gyfle i osod Cymru ar lwybr i roi terfyn ar ddigartrefedd, a sicrhau bod pobl yn cael y cymorth mae arnynt ei angen i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain ac yn cael cyfle i ffynnu yn eu cymunedau.

Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru wneud y canlynol:

- 1. Gweithredu argymhellion y Grŵp Gweithredu Digartrefedd**
- 2. Diogelu a chynyddu'r Grant Cymorth Tai**
- 3. Daparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol sy'n gwneud defnydd effeithiol o ynni**
- 4. Cydnabod a gwobrwyo gweithwyr ym maes digartrefedd a chymorth**
- 5. Gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl**

#1

**Gweithredu
Argymhellion y Grŵp
Gweithredu Digartrefedd**



Gweithredu Argymhellion y Grŵp Gweithredu Digartrefedd

Mae'r Grŵp Gweithredu Digartrefedd, a sefydlwyd ym mis Mehefin 2019, wedi cyhoeddi cyfres o [adroddiadau](#) sy'n darparu cynllun i roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru. Tra bod holl argymhellion y Grŵp wedi cael eu derbyn gan y Cabinet cyfredol, bydd eu gweithredu'n llawn yn gofyn am ymrwymiad hirdymor gan y Llywodraeth nesaf.

Fel aelod o'r Grŵp Gweithredu Digartrefedd, cynhaliodd Cymorth Cymru ddigwyddiadau ymgysylltu gyda phobl a chanddynt brofiad o ddigartrefedd, gan ofyn iddynt am eu barn ar sut y dylai Cymru fynd ati i roi terfyn ar ddigartrefedd. Mae arnom ddyled iddynt hwy i sicrhau bod eu syniadau'n cael eu gwireddu. Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru weithredu argymhellion y Grŵp Gweithredu Digartrefedd yn llawn, gan gynnwys y canlynol:

★ Dull Traws-lywodraethol o weithio

Mae digartrefedd yn ymwneud â mwy na dim ond tai, a bydd ymrwymiad traws-lywodraethol yn holl bwysig os am lwyddo i weithredu argymhellion y Grŵp Gweithredu Digartrefedd. Mae hyn yn cynnwys cynllun atal cyffredinol ac ymyriad cynnar, yn ogystal â chynllun atal wedi'i dargedu, gan sicrhau cymorth aml-asiantaeth ar gyfer materion yn ymwneud ag iechyd meddwl a defnyddio sylweddau, a sicrhau nad oes neb yn eu cael eu hunain yn ddigartref ar ôl gadael ysbyty, gofal neu garchar.

★ Trawsnewid gwasanaethau digartrefedd

Un o argymhellion allweddol y Grŵp yw gosod ailgartrefu brys wrth galon y system i fynd i'r afael â digartrefedd, gan symud pobl i mewn i gartrefi sefydlog, diogel ac addas cyn gynted ag y bo modd, a lleihau'r ddibyniaeth ar lety argyfwng. Mae'r broses hon wedi cychwyn gyda'r ymateb 'cam 2' i COVID-19, ond bydd trawsnewidiad go iawn yn cymryd amser a bydd angen cefnogaeth y Llywodraeth nesaf yng Nghymru.

★ Gwasanaethau seicolegol-wybodus

Gwyddom fod trawma yn cael effaith aruthrol ar fywydau pobl, fel y gwelir yn yr [ymchwil](#) a wnaed gan lechyd Cyhoeddus Cymru sy'n dangos bod pobl a gafodd bedwar neu ragor o brofiadau andwyol yn eu plentyndod (ACEs) yn 20 gwaith mwy tebygol o dreulio amser mewn carchar a 14 gwaith yn fwy tebygol o ddioddef trais na rhai na ddioddefodd brofiadau tebyg. Er mwyn lliniaru'r effaith, a thorri'r cylch trawma, mae'n hanfodol bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yn defnyddio dull seicolegol-wybodus o weithio.

#2

Diogelu a chynyddu'r Grant Cymorth Tai



Diogelu a chynyddu'r Grant Cymorth Tai

Y Grant Cymorth Tai yw'r prif ffrwd o arian ar gyfer gwasanaethau cymorth ym maes digartrefedd a thai yng Nghymru. Gan gefnogi tua 60,000 o bobl bob blwyddyn, mae'n atal ac yn lliniaru digartrefedd, yn helpu pobl i ddianc rhag trais a chamdriniaeth, ac yn cefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain a ffynnu yn eu cymunedau.

Mae **ymchwil** ddiweddar a gynhaliwyd gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd yn dangos bod gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn darparu arbedion blynyddol o £300 miliwn i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru trwy atal digartrefedd, lliniaru'r pwysau ar iechyd a gofal cymdeithasol, a lleihau'r rhyngweithiad gyda'r system cyfiawnder troseddol. Mae hyn yn cynrychioli arbedion net o £1.40 am bob £1 a fuddsoddwyd gan Lywodraeth Cymru. Ffaith bwysig yw fod yr ymchwil hefyd yn dangos effaith bositif barhaus ar iechyd a lles pobl, ac ar eu hyder a'u hoptimistiaeth wrth feddwl am y dyfodol

Gwyddom fod llawer o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau digartrefedd wedi cael profiad helaeth o drawma; mae llawer ohonynt yn dioddef o broblemau iechyd meddwl, a rhai wedi brwydro gyda gor-ddibyniaeth. Mae hyn yn gwneud y broses o gaffael a chynnal cartref yn fwy anodd – oherwydd hynny, mae cael gwasanaethau cymorth sy'n derbyn arian digonol, sydd o safon uchel ac yn seicolegol-wybodus, yn holl bwysig os ydym am weld terfyn ar ddigartrefedd.

★ Cynyddu'r arian

Mae awdurdodau lleol, a darparwyr tai a chymorth yng Nghymru, wedi ymdrechu'n aruthrol o galed yn ystod y pandemig i ddarparu llety argyfwng a chymorth i bobl. Bydd cynnydd yn y Grant Cymorth Tai yn hanfodol yn y blynyddoedd sydd i ddod i sicrhau y gall pobl gynnal eu cartrefi ac osgoi mynd yn ôl ar y stryd. Mae angen hefyd i ni sicrhau bod gweithwyr cymorth yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a'u bod yn derbyn tâl teg am eu gwaith anhygoel. Fodd bynnag, mae hyn yn gofyn am ddull cynaliadwy o ariannu, a sicrwydd ar gyfer comisiynwyr awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaeth. Mae'n hanfodol bod y Grant Cymorth Tai yn cynyddu'n unol â chwyddiant (fel lleiafswm) drwy gydol tymor nesaf y Senedd.

★ Parhau i glustnodi'r arian

Mae parhau i glustnodi'r arian yn gwbl hanfodol i sicrhau bod arian y Grant Cymorth Tai yn cael ei gyfeirio i'r manau lle bo'r angen mwyaf. Pan wnaed i ffrwd â'r clustnodi yn Lloegr, darganfu'r Archwilydd Cyffredinol fod y gwariant wedi lleihau o 45% ar gyfartaledd dros bedair blynedd. Mae'n holl bwysig nad ydym yn gwneud yr un camgymeriad yng Nghymru.

#3

**Darparu 20,000 o gartrefi
cymdeithasol sy'n gwneud
defnydd effeithiol o ynni**



Darparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol sy'n gwneud defnydd effeithiol o ynni

Dylai pawb fod â'r hawl i gael cartref sefydlog, diogel a fforddiadwy. Er mwyn gwireddu hyn, rhaid i'r Llywodraeth nesaf wneud ymrwymiad cadarn i adeiladu a chefnogi datblygu o leiaf 20,000 o gartrefi cymdeithasol newydd.

Mae Shelter Cymru yn amcangyfrif bod 67,000 o aelwydydd ar restrau aros ar gyfer tai cymdeithasol ledled Cymru, a chyda dros 10,000 o bobl yn flynyddol yn eu disgrifio'u hunain yn ddigartref, mae'n amlwg bod angen ffocws parhaus ar adeiladu tai cymdeithasol.

Er bod deiliadaethau tai o bob math yn allweddol i roi terfyn ar ddigartrefedd, gwyddom mai tai cymdeithasol sydd orau yn nhermau sicrwydd deiliadaeth, a'u bod yn fwy fforddiadwy i bobl ar incwm isel a/neu sy'n dibynnu ar y system les. Tra bod Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei tharged o 20,000 o dai 'fforddiadwy' yn ystod tymor y Senedd hon, rydym yn glir bod raid i ffocws y tymor nesaf fod ar dai cymdeithasol.

Mae'n bwysig hefyd bod tai cymdeithasol yn cwrdd ag anghenion gwahanol grwpiau o bobl, yn cynnwys pobl ifanc sydd â'u budd-daliadau'n cael eu capio ar y gyfradd llety a rennir, pobl sengl yn dod allan o ddigartrefedd, teuluoedd ac aelwydydd lle mae amryw o genedlaethau'n cyd-fyw.

★ Darparu'r arian a'r gefnogaeth i adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol newydd

Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i raglen grant tai cymdeithasol dros 5 mlynedd, gan sicrhau bod cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol yn derbyn y cyllid mae arnynt ei angen i adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol newydd. Dylai rhaglen y grant annog landlordiaid cymdeithasol i ddyrannu cartrefi i bobl a chanddynt brofiad o ddigartrefedd, a pharhau â'u gwaith i atal troi allan sy'n arwain at ddigartrefedd. Dylai hefyd ateb gwahanol fathau o anghenion, yn cynnwys pobl ifanc sy'n derbyn symiau is mewn budd-daliadau tai.

★ Cefnogi landlordiaid gyda datgarboneiddio

Dylai mynd i'r afael â newid hinsawdd fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth nesaf, ac mae hyn yn cynnwys cefnogi'r sector tai i chwarae ei ran. Bydd datgarboneiddio'r sector tai – yn cynnwys tai newydd a thai sydd eisoes yn bodoli – yn gwbl allweddol, nid yn unig i leihau'r effaith ar ein hinsawdd, ond hefyd er mwyn lleihau tlodi tanwydd ymhlith y tenantiaid. Bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol, a rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu pecyn ysgogi sy'n rhoi cymorth i landlordiaid cymdeithasol i'w galluogi i wireddu'r cynllun hwn.

#4

**Cydnabod a gwobrwyo
gweithwyr ym maes
digartrefedd a chymorth**



Cydnabod a gwobrwyo gweithwyr ym maes digartrefedd a chymorth

Drwy gydol yr amser, y gweithwyr ym maes digartrefedd, tai a chymorth fu ein hased mwyaf gwerthfawr, ac mae'r pandemig hwn wedi taflu golau llachar ar eu cyfraniad anhygoel hwy i'n cymdeithas. Mae'n hen bryd sicrhau bod eu gwaith yn cael ei werthfawrogi, ei gydnabod a'i wobrwyo.

Dros y degawd diwethaf mae cyfyngiadau ar wario cyhoeddus, ynghyd â phwysau cynyddol ar wasanaethau, wedi arwain at godiadau cyflog bychan – neu dim codiadau o gwbl – i'r gweithwyr cymorth, er gwaetha'r cynnydd mewn costau byw. Ar yr un pryd, maent wedi bod yn gwneud gwaith hynod heriol, yn rhoi cymorth i bobl ddelio â thrawma sylweddol, a phroblemau gydag iechyd meddwl a camddefnyddio sylweddau. Maent wedi parhau i gadw ffocws a bod yn bositif, gan helpu pobl i adnabod eu cryfderau, datblygu eu sgiliau a thrawsnewid eu bywydau.

Bydd recriwtio a chadw staff o ansawdd uchel yn greiddiol i roi terfyn ar ddigartrefedd, gan gefnogi pobl i fyw'n annibynnol a'u hamddiffyn rhag trais a chamdriniaeth. Rhaid rhoi'r adnoddau i ddarparwyr gwasanaeth i'w galluogi i wella tâl, cymorth ac amodau gwaith.

★ Gweithwyr cymorth ym maes digartrefedd a thai

Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru wneud popeth posibl i sicrhau bod gweithwyr cymorth rheng-flaen yn derbyn gwell cydnabyddiaeth ac yn cael eu gwobrwyo am eu gwaith holl bwysig. Dylai Gweinidogion roi'r adnoddau i'r Grant Cymorth Tai i'w galluogi i hwyluso hyn, ac annog awdurdodau lleol i gomisiynu gwasanaethau a chanddynt ddigon o arian i ofalu am gyflog teg, lles y staff, ymarfer adlewyrchol a chymorth seicolegol i ddelio â thrawma dirprwyol a llosgi allan.

★ Gweithwyr gofal cymdeithasol

Rydym yn cefnogi'r ymgyrch [Talwch Gyflog Teg](#), sy'n gofyn am dri pheth sylfaenol:

- Rhaid gweithredu'r Cyflog Byw Go lawn fel isafswm, a hynny i bob gweithiwr gofal yng Nghymru.
- Rhaid cael modd o ariannu dilyniant a gwahaniaethau yn seiliedig ar gymwysterau, sgiliau a chyfrifoldebau.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru gynyddu arian gofal cymdeithasol ar gyfer awdurdodau lleol i sicrhau bod y sector yn cael ei yrru gan werth, yn hytrach na chan gost, a bod ganddo'r adnoddau angenrheidiol i ddarparu gwell deilliannau ar gyfer defnyddwyr, y gweithlu a gwerth cymdeithasol i gymunedau.

#5

**Gwella mynediad at
wasanaethau iechyd meddwl**



Gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl

Mewn ymchwil a wnaed ar gyfer ein hadroddiad **Health Matters** yn 2016, canfuwyd fod 82% o'r bobl a chanddynt gysylltiad â'u hadran digartrefedd yn dioddef problemau iechyd meddwl. Yn ogystal, nododd yr ymchwil nifer o rwystrau rhag cael mynediad at wasanaethau iechyd, yn cynnwys rhestrau aros, methu cael apwyntiad, a gwrthod mynediad iddynt oherwydd problemau gydag alcohol neu gyffuriau.

Yn ogystal, mae ymchwil a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos bod 50% o bobl sydd wedi cael profiad o ddigartrefedd hefyd wedi cael pedwar neu ragor o brofiadau andwyol mewn plentyndod, sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o ddioddef problemau'n ymwneud â digartrefedd, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

Mae adeiladu digon o gartrefi sefydlog, diogel a fforddiadwy yn holl bwysig, ond mae darparu cymorth i gefnogi iechyd meddwl pobl yn greiddiol i'r dasg o gynnal tenantiaethau ac atal digartrefedd. Mae mynediad at gefnogaeth seicolegol hefyd yn gwbl hanfodol er mwyn helpu pobl i ddelio â'u profiadau o drawma, a chwalu'r cylch ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

★ Gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl y GIG

Dylai gwasanaethau iechyd meddwl y GIG fod yn hygyrch i bawb yng Nghymru, yn cynnwys pobl a chanddynt brofiad o ddigartrefedd. Mae'n holl bwysig bod y gwasanaethau hyn yn cael eu hariannu'n briodol, a'u cefnogi i fod yn fwy hygyrch i bobl ddigartref.

★ Ehangu timau aml-ddisgyblaethol ym maes digartrefedd

Mae timau aml-ddisgyblaethol ym maes digartrefedd, a chanddynt weithwyr proffesiynol sy'n arbenigo mewn iechyd meddwl a defnyddio sylweddau, wedi bod yn effeithiol wrth gefnogi pobl a chanddynt broblemau iechyd sy'n cyd-ddigwydd. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru barhau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r model hwn, sy'n mynd â gwasanaethau iechyd at bobl ddigartref, yn hytrach na disgwyl iddynt hwy oresgyn y rhwystrau i fynychu lleoliadau iechyd traddodiadol.

★ Ariannu gwasanaethau cymorth arbenigol ym maes iechyd meddwl

Mae gwasanaethau arbenigol ym meysydd iechyd meddwl, tai â chymorth a chefnogi tenantiaethau wedi bodoli erioed i sicrhau bod pobl a chanddynt broblemau iechyd meddwl hirdymor a/neu salwch meddwl yn gallu cael y gefnogaeth arbenigol mae arnynt ei hangen. Mae'n bwysig bod gwasanaethau arbenigol yn parhau i gael eu comisiynu drwy gydol tymor y Senedd nesaf.



www.cymorthcymru.org.uk



policy@cymorthcymru.org.uk



@CymorthCymru